Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6296**
E-bost: **Osian.Bowyer@senedd.cymru**
X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2024

**Awdur:**
Osian Bowyer

# Cynnwys

**Cyflwyniad ..... 1**

Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil ..... 1

**Cipolwg ar y Bil ..... 2**

**Crynodeb o'r darpariaethau ..... 3**

Rhan 1 – Ardrethu Annomestig ..... 3

Trosolwg ..... 3

Rhestrau ardrethu lleol a chanolog ..... 3

Ailbrisio ardrethi annomestig ..... 4

Pwerau i roi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl ..... 4

Rhyddhad ardrethi elusennol ..... 5

Hysbysiadau cwblhau ..... 6

Rhyddhad dewisol: terfyn amser ..... 6

Amrywio a thynnu esemptiad yn ôl ..... 7

Cyfrifo lluosydd ardrethi annomestig ..... 7

Gwybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio ..... 8

Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethi annomestig ..... 9

Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ..... 9

Rhan 2 – Y Dreth Gyngor ........ 10

Trosolwg ........ 10

Cyfrifo treth ar gyfer gwahanol fandiau prisio ........ 10

Disgowntiau ........ 10

Symiau llai ........ 11

Cyhoeddi hysbysiadau ........ 12

Gweithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio ........ 12

Rhan 3 – Darpariaethau cyffredinol ........ 13

Darpariaethau cyffredinol ........ 13

Atodlen 1 ........ 13

# Cyflwyniad

Cyflwynwyd y **Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** ar 20 Tachwedd 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad clir yn ei **Rhaglen Lywodraethu** diwygio trefniadau Treth y Cyngor presennol er mwyn "system decach a mwy graddoledig.". Mae hwn yn ymrwymiad a rennir o fewn y **Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru,** sy'n datgan ei uchelgais fel a ganlyn:

Diwygio un o'r mathau lleiaf teg o drethu – un sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru – i'w gwneud yn decach.

Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd y **Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS**, "bydd y Bil yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddiwygio ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru", ac, yn gyffredinol:

> …bydd y newidiadau a gynigir yn golygu y bydd y fframwaith ar gyfer trethi lleol: yn cyd-fynd yn agosach â newidiadau yn amodau'r farchnad; yn ymateb i'r cyd-destun sy'n esblygu ar gyfer trethdalwyr, a'r effeithiau dilynol ar gyfer cymunedau; ac wedi'i deilwra ar gyfer anghenion Cymru drwy gael ei sefydlu a'i gynnal o fewn pwerau a strwythurau datganoledig.

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil yn datgan y bydd y Bil yn cynorthwyo gyda:

> mynd i'r afael â llawer o gyfyngiadau'r trefniadau presennol…
>
> [a bydd yn]
>
> cynyddu gallu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflwyno'r trefniadau tecaf posibl yng nghyd-destun systemau sefydledig ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.

Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â rhai o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn ymgynghoriad **Cam 1** Llywodraeth Cymru ar newidiadau a gwelliannau i'r dreth gyngor, a'i hymgynghoriad ar **ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru**. Mae hyn yn dilyn **ymchwil a chasglu tystiolaeth** dros nifer o flynyddoedd i helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar ddiwygio'r system drethiant leol yng Nghymru.

## Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn cysylltu â'r adran berthnasol o'r Bil.

# Cipolwg ar y Bil

Mae gan y Bil 25 o adrannau, wedi'u trefnu'n dair rhan, ac un atodlen.

- **Rhan 1** – Ardrethu Annomestig
- **Rhan 2** – Y Dreth Gyngor
- **Rhan 3** – Cyffredinol

Mae Atodlen 1 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig, gan gynnwys rhestrau ardrethu, esemptiadau, gwrthweithio osgoi trethi a lluosyddion ardrethi annomestig.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn cynnwys tablau sy'n nodi'r pwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil, a gweithdrefnau craffu'r Senedd y byddant yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r **Datganiad o Fwriad Polisi** yn darparu rhagor o fanylion am yr is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Bil, tra bod y Nodiadau Esboniadol (sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol) wedi'u cynnwys i gynorthwyo'r rhai sy'n darllen y Bil, a dylid eu darllen ar y cyd ag ef.

At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sy'n rhoi crynodeb o gostau a buddion amcangyfrifedig y Bil.

# Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Ardrethu Annomestig

### Trosolwg

Mae **adran 1** o'r Bil yn rhoi trosolwg o'r adrannau yn Rhan 1 o'r Bil, sy'n ymwneud yn gyfan gwbl ag ardrethi annomestig, y cyfeirir atynt yn aml fel 'ardrethi busnes'.

Nod datganedig y darpariaethau yw gwneud y "system ardrethi annomestig yn decach ac yn fwy addas i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer datblygu busnes yng Nghymru".

Mae darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988").

### Rhestrau ardrethu lleol a chanolog

Mae ardrethi annomestig yn fath o dreth a godir ar feddianwyr neu berchnogion eiddo annomestig a seilwaith (*hereditamentau*). Gelwir y rheini sy'n atebol i dalu yn dalwyr ardrethi. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y system yn "hynod effeithlon" gyda chyfradd gasglu flynyddol o 97%, a "chostau gweinyddu isel".

Cesglir ardrethi gan awdurdodau lleol ("awdurdodau bilio"), a chaiff biliau eu cyfrifo ar werth ardrethol yr eiddo a aseswyd, ynghyd â lluosydd a bennir yn flynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae **adran 2** o'r Bil yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 1988 sy'n diwygio'r trefniadau ar gyfer llunio **rhestrau ardrethu lleol** .Y rhestr ardrethu leol yw'r rhestr o eiddo annomestig mewn ardal leol sy'n destun ardrethi busnes. Mae'n cofnodi gwerth ardrethol pob hereditament, a ddefnyddir i gyfrifo swm y rhwymedigaeth ardrethi busnes.

Mae'r ddarpariaeth newydd yn gofyn am lunio rhestrau **bob tair blynedd** (nid y pum mlynedd sydd eu hangen ar hyn o bryd). Bydd angen llunio'r rhestr ardrethu leol nesaf ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach na 1 Ebrill 2028 fel y nodir ar hyn o bryd).

Mae'r gofynion ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio i baratoi a chynnal rhestrau yn cael eu cadw, fodd bynnag, mae dyletswydd newydd ar awdurdodau bilio i gadw copi o'r rhestrau a luniwyd **yn electronig**.

Mae **adran 3** – yn debyg i adran 2 – yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 1988 sy'n diwygio'r trefniadau ar gyfer llunio'r **rhestr ardrethu canolog**. Mae'r rhestr hon yn wahanol i'r rhestr leol, gan fod yr hereditament yn croesi ffiniau awdurdodau lleol lluosog. Byddai hyn yn cynnwys pethau fel seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau mawr.

At hynny, bydd y cyfnod ailbrisio ar gyfer rhestrau canolog yn byrhau o bum mlynedd i **dair blynedd**, gan ddilyn yr un amserlen â'r rhestr ardrethu leol. Gan fod y rhestr ganolog yn croesi ardaloedd awdurdodau lleol lluosog, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gadw copi. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gadw'r rhestr ganolog yn electronig.

## Ailbrisio ardrethi annomestig

Mae **adran 4** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r bwlch rhwng llunio rhestrau ardrethu lleol a chanolog ar gyfer Cymru.

Mae newidiadau i'r flwyddyn ailbrisio yn y blynyddoedd diwethaf wedi'u gwneud gan Ddeddfau Senedd y DU. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd adran 4 yn:

> rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau economaidd neu ffactorau eraill mewn modd mwy amserol er budd rhanddeiliaid yng Nghymru.

Rhaid i unrhyw newid i'r flwyddyn ailbrisio fod yn berthnasol i'r ddwy restr ar yr un pryd. Rhaid i reoliadau i ddiwygio'r cylch ailbrisio gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo ganddi.

## Pwerau i roi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl

Mae **adran 5** yn diwygio atodlenni amrywiol yn Neddf 1988 sy'n ymwneud â chyfrifo swm trethadwy ardrethi annomestig a chymhwyso rhyddhad ar gyfer rhestrau ardrethu lleol a chanolog. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi neu amrywio rhyddhadau, neu eu tynnu'n ôl. Byddai hyn yn amodol ar gymeradwyaeth drwy benderfyniad gan y Senedd.

Byddai'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi **rhyddhadau newydd rhannol** neu **lawn** yn ôl yr angen ar unrhyw adeg benodol. Y nod allweddol yma yw rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ddarparu rhyddhad amrywiol, o bosibl i sector penodol yn ystod amgylchedd economaidd heriol, er enghraifft.

At hynny, gellid defnyddio'r pwerau i ddiwygio neu ddileu rhyddhad presennol sydd wedi'i gynnwys yn Neddf 1988, neu newid y rheolau a nodir yn y Ddeddf ar gyfer sut i gymhwyso'r rhyddhad pan fydd mwy nag un rhyddhad ar gael.

Er nad yw'r Bil yn gwneud newidiadau i'r system rhyddhad ardrethi ei hun yng Nghymru, **mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol eisoes wedi cyhoeddi adolygiad** o'r ardrethi annomestig presennol yn ystod tymor y Senedd hwn, gan nodi fel a ganlyn:

> Mae rhyddhad ardrethi wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi busnesau drwy gydol y pandemig ac mae lefel gyffredinol y rhyddhad a roddir i drethdalwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond nawr yw'r amser i gamu yn ôl ac adolygu ein holl gynlluniau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd ein hadolygiad yn ystyried **yr ystod o gynlluniau rhyddhad, lefel y cymorth, sut y caiff rhyddhad ardrethi ei dargedu a pha mor hir y mae'n para**.

## Rhyddhad ardrethi elusennol

Mae **adran 6** o'r Bil yn ceisio cryfhau'r broses ar gyfer hawlio **rhyddhad ardrethi elusennol ar gyfer eiddo annomestig gwag** drwy fynnu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol er mwyn elwa ar y rhyddhad (er enghraifft, cyfrifon ac adroddiadau blynyddol). Mae hyn er mwyn mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig.

Ar hyn o bryd, gall elusennau – neu ymddiriedolwr elusen sy'n berchen ar hereditament heb ei feddiannu, neu'n ei brydlesu– geisio rhyddhad llawn rhag atebolrwydd ardrethi pan ymddengys y bydd yr hereditament yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol pan gaiff ei ddefnyddio nesaf.

Os na chaiff yr hereditament ei ddefnyddio wedyn at ddibenion elusennol, mae'n bosibl bod y trethdalwr wedi cael budd anghywir o ryddhad. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn "i er anfantais talwyr ardrethi eraill" ac yn lleihau cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol.

Mae'r Bil, felly'n cynnig bod yn rhaid i awdurdod bilio fod yn fodlon bod yr hereditament yn wag am reswm sy'n ymwneud â dibenion elusennol er mwyn i'r rhyddhad fod ar gael. At hynny, er mwyn hawlio'r rhyddhad, bydd angen i elusen neu ymddiriedolwr elusen roi copi o'r **cyfrifon mwyaf diweddar, ac adroddiad blynyddol** i'r awdurdod bilio (os oes angen paratoi un o dan adran 162(1) neu 168(3) o Ddeddf Elusennau 2011). Bydd hyn, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn galluogi awdurdod bilio i:

> edrych y tu hwnt i statws elusennol sefydliad ac i ystyried a yw nodau'r elusen, y defnydd y bwriada ei wneud o'r hereditament a'r rheswm pam nad yw wedi'i feddiannu, yn gydnaws.

Drwy'r ddarpariaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y gofynion ychwanegol yn "yn darparu tystiolaeth bellach bod y talwr ardrethi yn elusen weithredol". At hynny, mae'n honni na fydd yr amodau ychwanegol yn "gosod baich gweinyddol anghymesur ar drethdalwyr mewn achosion dilys".

Mae adran 6 yn ailddatgan y ddarpariaeth bresennol yn Neddf 1988 ynghylch cymhwystra clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig i gael budd o ryddhad ardrethi elusennol, ond **heb osod gofynion dogfennol newydd** ar y cyrff hynny.

## Hysbysiadau cwblhau

Mae **adran 7** yn ehangu'r diffiniad o adeilad newydd yn adran 46A o Ddeddf 1988 i gynnwys adeiladau presennol sydd wedi cael eu haddasu. Mae hwn yn welliant technegol a fydd yn caniatáu i awdurdod bilio gyflwyno **hysbysiad cwblhau** ar gyfer eiddo busnes a dynnwyd oddi ar y rhestr ardrethu, er mwyn i newidiadau gael eu hychwanegu yn ôl at y rhestr. At hynny, mae'n cyd-fynd â'r system yn Lloegr, gan sicrhau bod eiddo perthnasol yn cael ei ddwyn i sylw Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn modd "amserol".

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r newid hwn yn arwain at "gostau gweinyddol bach iawn i awdurdodau lleol", gydag awdurdodau lleol yn awgrymu "na fydd y newid hwn yn cael fawr ddim effaith ar nifer yr hysbysiadau cwblhau yr ymdrinnir â nhw".

## Rhyddhad dewisol: terfyn amser

Mae **adran 8** **yn diwygio'r cyfyngiadau amser** sydd wedi'u gosod ar awdurdodau bilio ar hyn o bryd i ddyfarnu ac amrywio rhyddhad ardrethi annomestig dewisol. Fel ag y mae, gellir ond gwneud penderfyniadau **o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol berthnasol**. Mae'r ddarpariaeth yn dileu'r cyfyngiad hwn.

Mae'r sefyllfa bresennol, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn "anghyson â phwerau disgresiwn lleol sydd, fel arall, yn eang iawn" ar gyfer awdurdodau bilio. Bydd adran 8 o'r Bil yn dileu'r cyfyngiad amser presennol o flwyddyn ariannol 2024-25 ymlaen, gan adlewyrchu'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer awdurdodau bilio yn Lloegr.

Mae gwahanol fathau o ryddhadau dewisol, er enghraifft rhyddhad atodol i glybiau chwaraeon amatur cymunedol, neu ryddhad i drethdalwyr sy'n wynebu caledi. Gall rhai rhyddhadau gael eu hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod bilio.

## Amrywio a thynnu esemptiad yn ôl

Mae **adran 9** yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 1988 sy'n darparu ar gyfer esemptiadau rhag ardrethu annomestig. Mae'r darpariaethau yn rhoi pwerau estynedig i Weinidogion Cymru i roi esemptiadau newydd, neu amrywio neu dynnu esemptiadau presennol yn ôl, yn yr Atodlen honno.

Mae esemptiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd y darpariaethau yn adran 9 yn dileu'r gofyniad i newidiadau yn y dyfodol i esemptiadau yng Nghymru gael eu gwneud gan Ddeddfau'r Senedd neu Senedd y DU.

Mantais allweddol mabwysiadu'r opsiwn hwn, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yw bod y system ardrethi annomestig "yn addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn fanteisiol i dalwyr ardrethi gan y bydd yn galluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol wrth ddylunio a gweithredu rhyddhadau ac esemptiadau".

## Cyfrifo lluosydd ardrethi annomestig

Mae **adran 10** ac **adran 11** yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo'r **lluosydd** ardrethi annomestig, a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddir i gyfrifo rhwymedigaeth ardrethi annomestig. Bydd y ddarpariaeth yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru osod, drwy reoliadau, luosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o eiddo (y cyfeirir atynt yn y Bil fel "lluosyddion gwahaniaethol").

Ar hyn o bryd, mae un lluosydd yn berthnasol i bob hereditament yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau presennol i osod y lluosydd, ond nid lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o hereditamentau.

Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi y bydd y darpariaethau yn adran 10 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i "roi system fwy hyblyg ar waith a all drin mathau gwahanol o eiddo mewn ffordd fwy penodol". Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lluosydd llai ar gyfer busnesau 'gwyrdd' neu gynlluniau adfywio'r stryd fawr, gan negyddu'r angen am gynllun rhyddhad wedi'i dargedu.

## Gwybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio

Mae **adran 12** yn gosod dyletswyddau newydd ar dalwyr ardrethi, i ddarparu **gwybodaeth hysbysadwy** benodol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio o fewn terfynau amser penodedig. Mae'r rhwymedigaethau yn cynnwys gofyniad i dalwyr ardrethi gyflwyno cadarnhad blynyddol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â'r dyletswyddau hyn.

At hynny, mae'n darparu ar gyfer fframwaith gorfodi (cosbau sifil a throseddol) am fethu â chydymffurfio â'r gofynion newydd.

Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi yn ystod y cyfnod cyn ailbrisio ardrethi annomestig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i dalwyr ardrethi hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhagweithiol am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar werth ardrethol yr hereditament yn y blynyddoedd rhwng hynny. Gall newidiadau o'r fath arwain at werthoedd ardrethol sylweddol uwch pan fydd yr ailbrisiadau cyfnodol yn digwydd.

Mae'r Bil hefyd yn ymestyn dyletswydd bellach, i Gymru, i drethdalwyr ddarparu **cadarnhad blynyddol** i Asiantaeth y Swyddfa Brisio o fewn 60 diwrnod i 30 Ebrill bob blwyddyn, bod yr holl wybodaeth hysbysadwy berthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i darparu.

Er mwyn galluogi proses effeithlon i dalwyr ardrethi, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflwyno gwasanaeth ar-lein "a gynlluniwyd i fod yn hawdd i'w ddefnyddio gan bob talwr ardrethi".

Yn ogystal â'r dyletswyddau newydd a osodir ar dalwyr ardrethi i gyflenwi gwybodaeth, mae adran 12 o'r Bil yn ymestyn ymhellach, i Gymru, fframwaith cydymffurfio ac apeliadau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau gwybodaeth newydd. Mae cosbau y gellid eu cymhwyso am ddiffyg cydymffurfio yn cynnwys cosbau sifil a throseddol, pan fo person yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, tra'n honni ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau.

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan yr "ystyrir ei bod yn annhebygol iawn y byddai unigolion yn cael eu herlyn o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd", ac y byddai cosbau sifil "yn gymwys o dan amgylchiadau cyfyngedig" a orfodir yn ôl disgresiwn gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

## Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethi annomestig

Mae **adran 13** yn ceisio lleihau cyfleoedd i osgoi ardrethi annomestig. Mae'n cyflwyno fframwaith gwrth-osgoi newydd i ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu gweithgarwch gwrth-osgoi artiffisial mewn rheoliadau. At hynny, mae'r darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod cosbau ariannol mewn cysylltiad â threfniadau gwrth-osgoi.

Effaith y darpariaethau hyn fydd – pan fo ymddygiad osgoi penodedig yn parhau ar ôl i reoliadau gael eu gwneud – y bydd yn ofynnol i'r person dalu'r diffyg atebolrwydd o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw i'r awdurdod bilio perthnasol (mewn perthynas â rhestrau ardrethu lleol), neu Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'r rhestr ardrethu ganolog).

Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i dalwr ardrethi – ar ôl cael hysbysiad o atebolrwydd am ymddygiad osgoi – ofyn am adolygiad o'r hysbysiad hwnnw, a hawl i apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad hwnnw i Dribiwnlys Prisio Cymru.

Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi mai dim ond ar hyn o bryd y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i "helpu i nodi atebolrwydd, drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth o dan amgylchiadau penodol". Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig ei hun, a bydd y pwerau newydd, mae'n awgrymu, yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i ddulliau osgoi penodol.

## Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae **adran 14** yn mewnosod adran 143A newydd (Gorchmynion a rheoliadau Gweinidogion Cymru) yn Neddf 1988. Mae adran 143A yn ailddatgan adran 143 o Ddeddf 1988, i nodi sut y mae pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1988 i'w harfer a'r weithdrefn gymwys i'w dilyn.

Mae **adran 15** yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil.

## Rhan 2 – Y Dreth Gyngor

### Trosolwg

Mae **adran 16** yn rhoi trosolwg o Ran 2 o'r Bil, sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r Dreth Gyngor. Prif nod y darpariaethau yn y rhan hon yw mynd i'r afael â "llawer o gyfyngiadau'r trefniadau presennol", yn ogystal â sefydlu cylch pum mlynedd rheolaidd ar gyfer ailbrisio eiddo domestig.

Mae darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i **Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992** ("Deddf 1992").

### Cyfrifo treth ar gyfer gwahanol fandiau prisio

Mae **adran 17** yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid y '**cyfeirbwynt**' a ddefnyddir i osod cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band treth gyngor (neu ei ddisgrifiad). Ar hyn o bryd, mae '**Band D**' wedi'i osod fel y cyfeirbwynt (h.y. y cyfartaledd a ddefnyddir mewn fformiwlâu a gynhwysir yn Neddf 1992 i gyfrifo'r dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer pob eiddo).

Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfrifo rhwymedigaeth y dreth gyngor. Yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf, neilltuir cyfran o'r dreth gyngor sy'n daladwy i bob eiddo preswyl yng Nghymru drwy gyfeirio at fand prisio'r eiddo. Mae'r bandiau prisio yn amrywio o A – I ac maent yn seiliedig ar brisiad o'r eiddo fel y'i pennir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Mae Deddf 1992 yn darparu bod y swm sy'n daladwy ar gyfer pob band Treth y Cyngor yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso fformiwla sy'n cynnwys y gyfran berthnasol ar gyfer y band hwnnw, fel y'i rhennir â "D". D felly yw'r 'cyfeirbwynt' ar gyfer pennu cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band arall.

### Disgowntiau

Mae **adran 18** yn diwygio darpariaethau Deddf 1992 sy'n ymwneud â **disgowntiau a diystyriadau'r** Dreth Gyngor ac yn rhoi cyfres o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn y maes hwn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae hyn "er mwyn i newidiadau allu cael eu rhoi ar waith yn gyflymach ac mewn ffordd fwy ymatebol".

Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dau ddisgownt statudol – cyfeirir at un yn gyffredin fel y 'disgownt person sengl' ac mae'n berthnasol lle mai dim

ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo sy'n agored i dalu'r dreth gyngor – naill ai oherwydd ei fod yn byw ar ei ben ei hun, neu oherwydd y caiff y preswylwyr eraill eu diystyru at ddiben cyfrifo'r dreth gyngor. Mae'r ail ddisgownt yn ymwneud ag eiddo gwag ac eiddo lle mae'r holl oedolion yn cael eu diystyru.

O ran eiddo gwag, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio eu disgresiwn i ddileu gostyngiadau a/neu godi premiwm treth gyngor.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod " adolygiad o'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau yn mynd rhagddo", gyda'r nod o foderneiddio'r system, gyda'r bwriad o gael "system wedi'i diweddaru o ddisgowntiau a diystyriadau fod ar waith o flwyddyn ariannol 2026-27 ymlaen".

## Symiau llai

Mae **adran 19** yn ymwneud â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac yn ceisio diwygio dyluniad a gweinyddiaeth y cynllun. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau (yn lle cynlluniau lleol) ac mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai'r cynllun. cael ei gymhwyso.

Mae'r **fframwaith deddfwriaethol presennol** ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu ei Gynllun ei hun yn flynyddol, yn seiliedig ar ofynion rhagnodedig mewn rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei **Datganiad o Fwriad Polisi** nad yw newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r cynlluniau yn bosibl, a dim ond disgresiwn cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol i amrywio eu Cynllun. Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru yn nodi, "yn ymarferol, mae hyn yn arwain at gynlluniau sydd fwy neu lai yr un peth ledled Cymru". Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn ceisio "lleihau cymhlethdod gweithredu a hwyluso'r broses weinyddu" drwy ddarparu un cynllun cenedlaethol.

Bwriedir i'r cynllun cenedlaethol cyntaf ddod i rym ar 1 Ebrill 2026, a disgwylir iddo fod yn gost niwtral gan nad yw'r darpariaethau'n newid y gofyniad ar awdurdodau lleol i gael Cynllun.

## Cyhoeddi hysbysiadau

Mae **adran 20** yn disodli'r gofynion ar awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion yn ymwneud â'r dreth gyngor mewn papurau newydd lleol gyda dyletswydd newydd i **gyhoeddi hysbysiadau treth gyngor yn electronig**, ac i wneud trefniadau amgen ar gyfer y rheini na allant weld hysbysiadau yn electronig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried dulliau gweithredu amgen megis "ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion ar-lein ac mewn papurau newydd". Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai dileu'n llwyr y gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd lleol "ei gwneud yn fwy anodd i grwpiau oedran hŷn neu'r rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd gael gafael ar wybodaeth."

Serch hynny, yn ôl Llywodraeth Cymru, gan fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddarparu gwybodaeth, "gallai'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysebion mewn papurau newydd gael eu defnyddio orau ar gyfer amrywiaeth o ddeunyddiau cyhoeddi eraill."

## Gweithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio

Mae **adran 21** yn gwneud darpariaeth ar gyfer ailbrisio eiddo domestig bob pum mlynedd, gan ddechrau yn 2030, a'r weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio gan swyddogion prisio lleol. At hynny, mae'r ddarpariaeth yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i ddiwygio blwyddyn ailbrisio, neu'r egwyl rhwng blynyddoedd ailbrisio pan fo angen.

Mae bandiau treth gyngor presennol Cymru yn seiliedig ar brisiadau o fis Ebrill 2003. Nid yw Lloegr wedi cynnal ailbrisiad treth gyngor ers 1991. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw sefydlu system "yn seiliedig ar brisiadau eiddo mwy cyfredol ar gyfer mwy na 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru" gan ddarparu, felly ar gyfer system sy'n "decach nag ydyw ar hyn o bryd".

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd ailbrisiadau rheolaidd yn "rhoi cyfle i'r cyhoedd ryngweithio'n aml â'r broses". Fodd bynnag, rhagwelir y bydd datblygiadau mewn technoleg a ffynonellau data ar eiddo, ardaloedd lleol a marchnadoedd yn "dibynnu llai ar brisiadau â llaw". Yn lle hynny, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn "dibynnu llai ar brisiadau â llaw" a thechnegau ystadegol arloesol.

Mae cost i ymgymryd ag ailbrisio 1.4 miliwn o eiddo, ac mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif cost o £18 miliwn rhwng 2024-25 a 2033-34. Bydd y rhan fwyaf o'r gost hon ar gyfer cynnal yr ailbrisiad ei hun gan Asiantaeth Swyddfa Brisio (£14 miliwn), tra amcangyfrifir y bydd cost o dros £2.5 miliwn i awdurdodau lleol wrth iddynt ymdrin â chynnydd mewn cysylltiadau gan drethdalwyr.

## Rhan 3 – Darpariaethau cyffredinol

### Darpariaethau cyffredinol

Mae **adran 22** yn diffinio cyfeiriadau at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae **adran 23** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Bil.

Mae **adran 24** yn nodi pryd y bydd darpariaethau yn y Bil yn dod i rym.

Mae **adran 25** yn darparu teitl byr y Bil.

## Atodlen 1

Mae **atodlen 1** yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil (ynghylch ardrethi annomestig). Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rhestrau ardrethu, esemptiadau, trefniadau gwrth-osgoi a lluosyddion ardrethi annomestig.